## YR ATODLEN

### Tanwyddau Awdurdodedig

**11.** Brics glo Black Diamond Gem, a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln—

(a) a gyfansoddir o lwch glo caled (sef tuag 20 i 30% o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef tua 40 i 45% o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef tua 12 i 22% o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr o driagl ac asid ffosfforig (sef gweddill y pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a thrin â gwres o tua 300°C;

(c) sy'n frics glo ar siâp gobennydd wedi eu marcio â hicyn ar ffurf dwy linell gyfochrog sy'n rhedeg yn lledredol o amgylch y fricsen;

(d) sy'n pwyso 160 gram ar gyfartaledd; ac

(e) nad yw mwy nag 1.5% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.